# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 26 Awst a 2 Medi 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Ysgolion Bro

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer ysgolion bro ar gyfer pob un o'r blynyddoedd ariannol rhwng 2004-05 a 2007-08? (WAQ37409)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Nid oes cyllideb benodol ar gyfer ysgolion bro yn 2004-05. Mae penderfyniadau am ddyraniadau yng nghyllidebau'r dyfodol yn dibynnu ar gylch cynllunio'r gyllideb sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Defnydd Ehangach o'r Parciau Cenedlaethol

**Val Lloyd:** Ym mha fodd y mae'r Gweinidog yn annog defnydd ehangach o'r parciau cenedlaethol? (WAQ37408)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae tri pharc cenedlaethol Cymru yn denu dros 22 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn, gan gyfrannu'n sylweddol at yr economi yn lleol ac yn genedlaethol. Yr wyf yn awyddus i bob carfan o gymdeithas yng Nghymru, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig a grwpiau o dan anfantais gymdeithasol, gael y cyfle i fwynhau'r ardaloedd arbennig hyn fel rhan o'n hagenda cynhwysiant cymdeithasol. Yr oedd hwn yn un o'r meysydd allweddol a archwiliwyd yn yr adolygiad o awdurdodau'r parciau cenedlaethol a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, a gyhoeddais yn gynharach eleni. Yn fuddiol iawn, mae'r adolygiad wedi awgrymu camau y gellir eu cymryd i adeiladu ar fentrau defnyddiol sy'n bodoli'n barod, megis y prosiect mosaig, i annog defnydd cynaliadwy, ehangach o'r parciau. Mae'r rhain yn cael ystyriaeth fyw ar hyn o bryd fel rhan o'r gweithredu pellach yn deillio o'r adolygiad.

## Gwaredu Gwastraff o Safle LG yng Nghasnewydd

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a yw'n gwbl ymwybodol o'r trefniadau i symud, cludo a gwaredu pob categori o wastraff o safle LG yng Nghasnewydd? (WAQ37432)

**Carwyn Jones:** Nid wyf yn ymwybodol o'r trefniadau hyn. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu ar lefel strategol, yn gweithio gyda rhanddeiliaid, partneriaid ac awdurdodau rheoleiddio i sefydlu fframwaith polisi a rheoleiddio sy'n caniatáu i Gymru gyflawni ei rhwymedigaethau rheoli gwastraff o dan gyfraith y DU a'r UE a chyfraith ryngwladol. O fewn y fframwaith hwnnw, mae'r cyfrifoldeb am reoleiddio rheolaeth gwastraff yn gorffwys gyda Asiantaeth Amgylchedd Cymru a'r awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb am reoli gwastraff yn briodol yn gorffwys gyda'r sawl sy'n cynhyrchu'r gwastraff. Nid oes unrhyw reswm pam y dylwn gael gwybodaeth benodol am wastraff sy'n deillio o fusnesau masnachol unigol yng nghwrs arferol pethau.

## Ceisiadau Cynllunio i Ddatblygu ar Feysydd Chwarae ac Ardaloedd Hamdden

**Lisa Francis:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu sicrhau, yn ystod y chwe mis nesaf, bod y data ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu ar feysydd chwarae ac ardaloedd hamdden yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol? (WAQ37442)

**Carwyn Jones:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw'n ganolog. Mae materion casglu data yn cael eu hystyried yn yr adolygiad cyfredol o nodyn cyngor technegol 16: 'Chwaraeon a Hamdden'.

## Taliadau Iawndal ar Fustych a Threisiedi

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cynnig Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i leihau i sero y taliadau iawndal ar fustych a threisiedi yn rhan o'r cynllun dros 30 mis? (WAQ37470)

**Carwyn Jones:** Mae'r DU, fel aelod wladwriaeth, wedi nodi ei bod yn bwriadu ysgrifennu at y Comisiwn Ewropeaidd i gael cymeradwyaeth i gyflwyno cyfradd taliadau iawndal sero ar gyfer bustych

a threisiedi o dan y cynllun dros 30 mis. Y nod yw sicrhau gwell rheolaeth ar stoc ac annog ffermwyr i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n bodoli yn y farchnad ddomestig ar hyn o bryd.

Mae'r undebau amaethyddol wedi mynegi pryder am y cynnig ac, felly, cyn mynd â phethau ymhellach, mae DEFRA wedi cytuno i geisio rhagor o wybodaeth am pam y mae'r anifeiliaid hyn yn cael eu cynnig o dan y cynllun dros 30 mis a'r categorïau o fustych a threisiedi y telir iawndal amdanynt o dan y cynllun.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Lwfansau ar gyfer Aelodau'r Awdurdodau Tân

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch unrhyw drafodaethau a fu rhyngddi a chynrychiolwyr yr awdurdodau tân ynglyn â deddfwriaeth ar gyfer cynllun lwfansau ar gyfer aelodau'r awdurdodau tân? (WAQ37411)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Cyfarfûm â chynrychiolwyr Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar 29 Ebrill 2004 ac ag aelodau o fforwm tân Cymru ar 27 Mai i drafod y cynigion i dalu lwfansau i aelodau awdurdodau tân Cymru.

### Lwfansau ar gyfer Aelodau'r Awdurdodau Tân (Deddfwriaeth Ddiwygiedig)

**Lisa Francis:** Pryd y bydd y ddeddfwriaeth ddiwygiedig, mewn perthynas â lwfansau ar gyfer aelodau'r awdurdodau tân yn ystod blwyddyn ariannol 2003-04, yn cael ei chyflwyno? (WAQ37412)

**Sue Essex:** Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad, bydd rheoliadau yn galluogi'r awdurdodau tân i dalu lwfansau i'w haelodau yn dod i rym ar 29 Medi 2004. Nid oes modd i'r rheoliadau hyn fod yn ôl-weithredol felly ni ellir ôl-ddyddio'r lwfansau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Strategaeth Cymru ar gyfer Awtistiaeth

**Val Lloyd:** Pa fesurau sydd wedi'u cymryd i ddatblygu strategaeth ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer awtistiaeth? (WAQ37404)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae'r swyddogion yn

gweithio ynghyd ag arbenigwyr ym maes awtistiaeth i ddatblygu strategaeth ar gyfer anhwylderau sbectrwm awtistig. Bwriadwn ymgynghori ar y gwaith hwn erbyn diwedd y flwyddyn.

### Cost Sefydlu Cynllun yr Ail Gynnig

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad manwl o'r gost o sefydlu cynllun yr ail gynnig ers ei gyhoeddi? (WAQ37418)

**Jane Hutt:** Yn sgîl sefydlu cynllun yr ail gynnig, clustnodais gyllideb ddangosol o £250,000 i ddarparu ar gyfer amryw swyddogaethau cymorth. Mae'r rhain yn cynnwys rheolwr prosiect, tîm yr ail gynnig o ddau gomisiynydd, a chostau swyddfa a chostau rhedeg priodol.

### Ail Gynnig Triniaeth (Nifer o Bobl)

**Jonathan Morgan:** Faint o bobl sydd wedi derbyn ail gynnig am driniaeth ers i gynllun yr ail gynnig fod yn weithredol a faint o bobl sydd wedi derbyn yr ail gynnig? (WAQ37419)

**Jane Hutt:** Cynigiwyd triniaeth i 1,390 o gleifion o dan cynllun yr ail gynnig hyd yma. Mae 412 wedi cael triniaeth hyd yma ac mae 399 nifer wedi derbyn ac ar fin cael eu trin.

### Y Cyllid a Ddyrannwyd i Bob Prosiect

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn dilyn ei hateb i WAQ37292, a wnaiff y Gweinidog roi manylion am y cyllid a ddyrannwyd i bob prosiect a restrwyd? (WAQ37423)

**Jane Hutt:** Rhestrir isod fanylion y cyllid a ddyrannwyd i bob prosiect a restrwyd yn yr ateb i WAQ37292:

| **Enw'r Prosiect** | **Cyfanswm arian sy'n ofynnol (/£ miliwn)** | **Cynlluniwyd ar hyn o bryd i gael ei gwblhau erbyn** |
|---|---|---|
| Datblygu gwasanaethau uned lled gadarn i droseddwyr sydd ag anhwylderau meddwl (Glanrhyd – clinig Caswell) | 12.1 | 2004-05 |
| Datblygu gwasanaethau iechyd arbenigol i bobl ag anabledd dysgu (Hensol) | 8.2 | 2004-05 |
| Strategaeth iechyd meddwl Dyfed Powys—codi pum uned newydd i'r henoed eiddil eu meddwl ar draws y De-orllewin (Caerfyrddin) | 7.7 | 2004-05 |
| Strategaeth iechyd meddwl Dyfed Powys—codi pum uned newydd i'r henoed eiddil eu meddwl ar draws y De-orllewin (Sir Benfro a Derwen) | 8.4 | 2004-05 |

| | | |
|---|---|---|
| Canolfan ganser y De-orllewin—datblygu cyflymydd llinol/adran oncoleg yn Singleton | 10.1 | 2004-05 |
| Ailddatblygu uned damweiniau ac achosion brys a therapi dwys yn ysbyty Treforys | 8.6 | 2004-05 |
| Cynllun derbyn graddedigion (ysgol glinigol) yn Abertawe | 4.0 | 2004-05 |
| Cynnig i ddarparu cyfleuster cathetereiddio cardiaidd pwrpasol (Bro Morgannwg) | 0.3 | 2004-05 |
| Ailddarparu gwasanaethau iechyd meddwl aciwt i oedolion ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 15.2 | 2004-05 |
| Cyflymydd llinol newydd yn lle cyflymydd rhif 3 (02-17-011a) | 3.1 | 2004-05 |
| Datblygu labordy cathetereiddio cardiaidd sefydlog yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant | 0.4 | 2004-05 |
| Ailddarparu gwasanaethau adsefydlu yn yr ysbyty i bobl oedrannus yn y Gogledd-ddwyrain | 11.3 | 2005-06 |
| Ysgol glinigol y Gogledd-orllewin | 3.5 | 2005-06 |
| Ysgol glinigol y Gogledd-ddwyrain | 4.2 | 2005-06 |
| Gwasanaethau iechyd meddwl newydd i gleifion mewnol yn ysbyty Llandochau | 6.4 | 2005-06 |

## Y Lefelau Cyllido ar gyfer Cyffuriau Meddygol

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am linell y gyllideb y mae’r gyllideb ar gyfer cyffuriau meddygol wedi’i chynnwys ynddi, y newidiadau a wnaed yn y lefelau cyllido ar gyfer cyffuriau meddygol ers 1999 a sut y bydd y lefel gyllido ar gyfer cyffuriau meddygol yn newid am bob un o’r tair blynedd nesaf? (WAQ37425)

**Jane Hutt:** Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, mae’r arian ar gyfer cyffuriau meddygol wedi’i gynnwys yng nghyllideb rhagnodi cyffuriau’r byrddau iechyd lleol o fewn llinell y gyllideb ar gyfer gwariant refeniw BILl, ymddiriedolaethau a chyllidebau canolog a llinell wariant y gyllideb ar gyfer contractwyr.

Dangosir yr arian ar gyfer cyffuriau er 1999, ynghyd â’r newid canrannol yn lefel y cyllid, yn y tabl isod:

| **Blwyddyn ariannol** | **Dyraniad (£ miliwn)** | **Cynnydd (£ miliwn)** | **Cynnydd (%)** |
|---|---|---|---|
| 1999-00 | 305.019 | | |
| 2000-01 | 334.490 | 29.471 | 9.7 |
| 2001-02 | 364.034 | 29.544 | 8.8 |
| 2002-03 | 398.132 | 34.098 | 9.4 |
| 2003-04 | 434.908 | 36.776 | 9.2 |
| 2004-05 | 476.304 | 41.396 | 9.5 |

Adlewyrchir newidiadau yn nhrefn cyllidebu adnoddau o 2003-04 ymlaen. Pennir yr arian ar gyfer cyffuriau yn y dyfodol pan fydd canlyniad cylch gwariant y gyllideb yn hysbys yng ngham terfynol y gyllideb.

## Oedi wrth Drosglwyddo Gofal ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o lefelau cyfredol yr oedi wrth drosglwyddo gofal ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl mewn perthynas â phob ymddiriedolaeth y GIG, ac a wnaiff roi manylion am hyd pob achos lle bu oedi? (WAQ37426)

**Jane Hutt:** Adeg cyfrifiad mis Gorffennaf 2004, cofnodwyd oedi wrth drosglwyddo gofal yng nghyswllt 248 o gleifion ar wardiau iechyd meddwl. Mae tabl 1 yn nodi nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ym maes iechyd meddwl a hyd yr oedi hwnnw fesul ymddiriedolaeth.

Ni allaf roi dadansoddiad pellach o hyd yr oedi fesul ymddiriedolaeth oherwydd cyfrinachedd cleifion. Fodd bynnag, mae tabl 2 yn manylu ymhellach am hyd yr oedi yng nghyd-destun y cleifion iechyd meddwl drwy Gymru gyfan.

**Tabl 1**

| Enw'r ymddiriedolaeth | Oedi ym maes iechyd meddwl | Nifer o ddiwrnodau o oedi | |
|---|---|---|---|
| | | 1-40 | 41+ |
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 14 | 6 | 8 |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 69 | 15 | 54 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 0 | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | 7 | 3 | 4 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 40 | 21 | 19 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru | 12 | 9 | 3 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | 14 | 4 | 10 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru | 10 | 5 | 5 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | 49 | 20 | 29 |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda | 10 | 5 | 5 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys | 5 | 2 | 3 |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | 18 | 9 | 9 |
| **Cyfanswm llawn** | **248** | **99** | **149** |

**Tabl 2**

| **Oedi ym maes Iechyd Meddwl Gorffennaf 2004** | **Nifer o Ddiwrnodau o Oedi** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **0-90** | **91-180** | **181-365** | **1-2 Flynedd** | **2 Flynedd +** |
| 248 | 123 | 45 | 34 | 36 | 10 |

## Meddygon Teulu yn Dychwelyd

**David Lloyd:** Faint o feddygon teulu a ddychwelodd i weithio ym maes practis cyffredinol yn ystod y 12 mis diwethaf ac a wnaiff y Gweinidog nodi faint o'r rhai a ddychwelodd a dderbyniodd fwrsariaeth o dan y cynllun 'croeso euraid' o fewn ardal pob bwrdd iechyd lleol? (WAQ37430)

**Jane Hutt:** Mae'r data diweddaraf a ryddhawyd ar 24 Awst 2004 yn dangos bod cyfanswm o 30 o feddygon teulu wedi dychwelyd i weithio ym maes practis cyffredinol yng Nghymru rhwng mis Hydref 2002 a mis Medi 2003. Yn ogystal, ymunodd 55 o feddygon teulu newydd â'r proffesiwn yn yr un cyfnod. Nid yw nifer y rhai a ddychwelodd i weithio ac a dderbyniodd taliad y 'croeso euraid' ar gael yn ganolog.

Ffynhonnell: Cyfrifiad meddygol cyffredinol

## Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd Newydd (Meddygon Iau)

**David Lloyd:** Faint o ymddiriedolaethau'r GIG sydd wedi cydymffurfio â'r gyfarwyddeb oriau gwaith Ewropeaidd newydd o ran meddygon iau? (WAQ37438)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd mae pum ymddiriedolaeth GIG wedi bodloni gofynion y gyfarwyddeb oriau gwaith Ewropeaidd newydd. Erbyn diwedd mis Medi, y disgwyl yw y bydd 80 y cant o'r meddygon ar radd hyfforddi yn cydymffurfio â'r gofynion.

## Canllawiau i'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans yng Nghymru

**Lisa Francis:** A yw Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi canllawiau i'r ymddiriedolaeth ambiwlans yng Nghymru ac a yw'r canllawiau hynny'n cynghori y dylai criwiau ambiwlans ffordd gynnwys un gyrrwr a dau barameddyg ar y mwyaf? (WAQ37441)

**Jane Hutt:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau ar y mater hwn. Fodd bynnag, mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans wedi datgan ei bod yn dilyn canllawiau hirsefydledig llywodraeth y DU, sy'n cynnwys yr egwyddor ganlynol: dylid gwneud pob ymdrech i ddarparu criw argyfwng sy'n cynnwys, os yw'n bosibl, un parafeddyg ac un technegydd.

## Cyfraddau Heintio MRSA

**John Marek:** Pa wybodaeth sydd gan y Gweinidog am gyfraddau heintio MRSA ar gyfer ymddiriedolaethau unigol yng Nghymru ac a wnaiff nodi pa ymddiriedolaethau sydd wedi gwneud yr wybodaeth honno’n gyhoeddus? (WAQ37461)

**Jane Hutt:** Mae gwybodaeth am y cyfraddau heintio o fewn ymddiriedolaethau unigol yng Nghymru yn cael ei chasglu a’i chadw gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, fel a nodwyd mewn atebion i gwestiynau Cynulliad blaenorol, a chaiff ei chyhoeddi’n electronig mewn fformat nad yw’n cynnwys enwau. Nid yw’r gwasanaeth wedi cyflwyno imi y data a gasglwyd. Fodd bynnag, yr wyf wedi gofyn i swyddogion yn fy adran edrych drwy eu cofnodion am unrhyw wybodaeth a gedwir ar ffeil am gyfraddau MRSA yng Nghymru. Gallai gymryd peth amser i sefydlu a oes gwybodaeth o’r fath yn cael ei chadw ar ffeil ac, os oes, a oes modd ei dadlennu. Byddaf yn ysgrifennu atoch gyda’r canlyniad. Nid oes gennym wybodaeth yn ganolog am ba ymddiriedolaethau GIG sydd wedi gwneud y wybodaeth am eu cyfraddau heintio ag MRSA yn wybodaeth gyhoeddus.

## Cyflwyno’r Contract Newydd i Ymgynghorwyr

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adroddiadau y bydd cyflwyno’r contract newydd yn arwain at lawer o’r meddygon mwyaf profiadol yn y GIG yn ymddeol yn gynnar ar bensiwn llawn? (WAQ37462)

**Jane Hutt:** Mae’r adroddiadau hyn yn cyfeirio at yr effaith bosibl a gaiff y contract newydd i ymgynghorwyr yn Lloegr. Yng Nghymru, mae’r contract diwygiedig yn annog meddygon profiadol i aros yn y GIG drwy gyflwyno dau haen gyflog ychwanegol a dyfarniadau ymrwymiad sy’n daladwy bob tair blynedd ar ôl i feddygon gyrraedd uchafswm newydd y raddfa gyflog.